# Sgan uwchsain dwysedd isel sy'n pylsadu i hyrwyddo'r broses o wella toriadau newydd sy'n wynebu risg uchel o beidio â gwella

31 Gorffennaf 2018

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir gwneud y driniaeth hon. Mae hyn am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw i hyrwyddo'r broses o wella toriadau newydd (toriadau asgwrn) sy'n wynebu risg uchel o beidio â gwella.

Gall toriadau gymryd sawl mis i wella. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys triniaeth ddyddiol (fel arfer am tua 15 i 20 munud), gan ddefnyddio stiliwr uwchsain a leolir ar y croen a safle'r toriad. Y nod yw cyflymu'r broses o wella drwy ysgogi celloedd asgwrn i dyfu ac adnewyddu.

Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

### *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3025-8

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights